Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Gweithdrefn Monitro a Gwella Parhaus

2025/26

**Cynnwys**


1 Pwrpas y Weithdrefn ..... 2

2 Egwyddorion sy'n Diffinio ..... 3

3 Trosolwg o'r Broses Monitro a Gwella Parhaus ..... 3

*Ffigur 1: Proses Adolygu Lefel Rhaglen CME* ..... 5

*Ffigur 2: Amserlen ddangosol ar gyfer proses CME* ..... 6

4 Y Strwythur Adolygu ar gyfer Monitro a Gwella Parhaus ..... 9

*Ffigur 3: Y Strwythur Adolygu ar gyfer Monitro a Gwella Parhaus* ..... 9

4.1 Adolygu'r Modiwl ..... 9

4.2 Adolygu'r Rhaglen ..... 9

4.3 Adolygu ar Lefel Pwnc ..... 9

4.4 Adolygiad y Gyfadran ..... 11

4.5 Adolygiad y Sefydliad ..... 12

5 Hygyrchedd ..... 12

*Ffigur 4: Llif Gwaith y Broses Monitro a Gwella Parhaus* ..... 13

## 1 Pwrpas y Weithdrefn

1.1 Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu dull Prifysgol Wrecsam o weithredu o safbwynt sicrwydd ansawdd a gwelliant parhaus ansawdd cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr. Ei bwriad yw darparu sicrwydd ynghylch ansawdd a safonau rhaglenni academaidd sy'n arwain at rannu arfer da, a galluogi timau rhaglen i ymateb i ddata mewn amser go iawn, adnabod a chymryd camau gweithredu er mwyn gwella ansawdd a safonau'r ddarpariaeth yn barhaus ar yr amser priodol o'r flwyddyn.

1.2 Mae'r dull hwn yn seiliedig ar Fonitro a Gwerthuso, côd Ansawdd, Cyngor ac Arweiniad QAA, sy'n datgan:

> *"Monitoring and evaluation of higher education is an essential process within providers, forming a fundamental part of the academic cycle. It can, and should, look at all aspects of the higher education experience. All higher education providers are involved in course monitoring and review processes as these enable providers to consider how learning opportunities for students may be improved."*

1.3 Mae'r weithdrefn Monitro a Gwelliant Parhaus (CME) yn galluogi Prifysgol Wrecsam i:

- Cyflwyno tystiolaeth bod safonau ac ansawdd y ddarpariaeth academaidd yn cael eu monitro, eu cynnal a'u gwella'n barhaus.
- Cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid yn yr ymarfer, yn arbennig myfyrwyr, partneriaid cydweithredu, cyflogwyr a rhanddeiliaid hollbwysig eraill.
- Annog arweinwyr rhaglenni a staff academaidd eraill i hunanwerthuso'r ddarpariaeth yn drylwyr ac yn feirniadol, gan ymateb mewn da bryd i faterion/meysydd y gellir eu gwella.
- Gefnogi datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac archwilio cyfleoedd i hyrwyddo iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru'n rhagweithiol drwy'r cwricwlwm.
- Datrys camau a chyflwyno gwelliannau cyn gynted ag y bo modd.
- Cyfrannu at reoli ansawdd yn effeithiol mewn cyfadrannau academaidd a thimau rhaglenni trwy gyfrwng proses fonitro fyw a gaiff ei llywio gan dystiolaeth.
- Hyrwyddo'r arfer o bennu a lledaenu arferion da.
- Hyrwyddo deialog rhwng cyfadrannau academaidd a rhannau eraill o'r sefydliad.
- Ei gwneud yn bosibl i brosesau goruchwylio rhaglenni, pynciau, cyfadrannau a'r sefydliad bennu a datblygu mentrau gwella strategol.
- Diogelu atebolrwydd cyfadrannau academaidd i'r Bwrdd Academaidd drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau (QSC).

## 2 Egwyddorion sy'n Diffinio

2.1 Mae monitro a gwella rhaglenni'n barhaus yn broses hollbwysig a ddefnyddir gan gyfadrannau academaidd i sicrhau y cymerir camau amserol a phriodol ar lefel leol er mwyn cynnal a gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth y maent yn gyfrifol amdani (hynny yw, darpariaeth a gyflwynir ar y campws ac mewn sefydliadau partner).

2.2 Gofynnir i dimau rhaglenni ystyried a dadansoddi tystiolaeth a fydd yn deillio o amrywiaeth eang o ffynonellau pan ddaw tystiolaeth o'r fath i law, yn cynnwys:

- Ffurflenni cofnodion Gwerthuso a Chymedroli Modiwlau (MEMR).
- Adroddiadau Arholwyr Allanol ac ymatebion timau i adroddiadau.
- Adroddiadau Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRB).
- Ystadegau myfyrwyr (yn cynnwys recriwtio, cadw, cynnydd a chyrhaeddiad).
- Adborth gan fyfyrwyr, yn cynnwys canlyniadau Arolygon Myfyrwyr Cenedlaethol, holiaduron gwerthusiad myfyrwyr o fodiwlau (SEM), fforymau llais y myfyrwyr (SVF) ac argymhellion a wneir yn sgil ymchwilio i gwynion ffurfiol gan fyfyrwyr.
- Deilliannau ymarferion sicrwydd ansawdd megis gwerthuso rhaglen ac ail-ddilysu, gan gynnwys unrhyw argymhellion gan banel.
- Adborth gan gyflogwyr a rhanddeiliaid eraill.
- Materion sy'n deillio o drefniadau cydweithredol.

2.3 Cynlluniau gweithredu rhaglenni yw'r canolbwynt i dimau rhaglenni o ran monitro iechyd y rhaglen, ynghyd â data perthnasol pan fo ar gael. Timau Rhaglenni sy'n gyfrifol am gynlluniau gweithredu rhaglenni, a nhw sydd hefyd yn gyfrifol am adolygu a thrafod y cynlluniau gweithredu yn eu cyfarfodydd misol, gydag arweinwyr rhaglenni'n ysgogi'r broses adolygu.

2.4 Bydd pob adroddiad monitro a gwella rhaglen yn cael ei gwneud yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd gan yr Arweinydd Rhaglen ar gyfer adolygu ar lefel pwnc a chraffu gan y gyfadran, sy'n darparu cyfleoedd i rannu arfer da ac adnabod themâu cyffredin a phroblemau i'w huwchgyfeirio i'r Brifysgol drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau (QSC).


## 3 Trosolwg o'r Broses Monitro a Gwella Parhaus

3.1 Fel y dangosir yn y diagram isod, mae'r broses Monitro a Gwella Parhaus yn broses 'fyw' a gaiff ei llywio gan dystiolaeth, lle bydd timau rhaglenni'n myfyrio ar y rhaglen yn barhaus a lle bydd camau'n cael eu pennu a'u datrys cyn gynted ag y bo modd. Mantais a nodwedd hollbwysig y broses Monitro a Gwella Parhaus yw bod modd i dimau rhaglenni ymateb i dystiolaeth ac adborth yn ôl y galw, fel y gellir cymryd camau gwella mewn da bryd.

3.2 Bydd camau gwella a bennwyd yn y flwyddyn academaidd flaenorol yn cael eu hadolygu yng nghyfarfodydd misol y timau rhaglenni, a bydd camau newydd mewn ymateb i adborth mewnol neu allanol yn cael eu hychwanegu a'u hadolygu ar ffurf proses barhaus.

3.3 Bydd adroddiad myfyriol yn cael ei lunio erbyn diwedd y flwyddyn academaidd. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi themâu, materion a meysydd arferion da y dylid eu lledaenu'n ehangach. Bydd timau rhaglenni'n adolygu ac yn diweddaru'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

***Ffigur 1: Proses Adolygu Lefel Rhaglen CME***



***Ffigur 2: Amserlen ddangosol ar gyfer proses CME***

**Hydref**

- Cynnal cyfarfodydd Adolygu Lefel Pwnc er mwyn trafod ac awdurdodi adroddiadau CME diwedd blwyddyn a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.
- Dwyn ymlaen unrhyw gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni o'r cylch adolygu diwethaf i mewn i'r cylch newydd.
- Dechrau'r cylch CME newydd.

**Tachwedd-Rhagfyr**

- Adolygu, dadansoddi a diweddaru'r cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddata SVF a rhaglenni setiau data y flwyddyn flaenorol (cadw, cynnydd a safonau academaidd).
- Trafod themâu ac argymhellion cyffredin o'r Adolygiad Lefel Pwnc a rhannu arferion da, cymeradwyo'r adroddiad trosolwg cyfadran CME ar gyfer ei hystyried gan y QSC.

**Ionawr-Mawrth**

- Cynnal gwerthusiad modiwlau y modiwlau yn Semester 1.
- Asesu setiau data rhaglen o'r flwyddyn flaenorol (cadw, cynnydd a chanlyniad gradd) a diweddaru'r adfyfyriad yn yr adroddiad diwedd blwyddyn.
- Adolygu SEMau, adborth EE a gwerthusiad arweinydd y modiwl ac adnabod arferion da/meysydd i'w gwella.
- Adolygu'r cynllun gweithredu a'i ddiweddaru lle mae'n angenrheidiol ar lefel rhaglen.
- Derbyn adroddiadau trosolwg cyfadran CME yn y QSC, cytuno ar themâu a chamau gweithredu gwelliant, ac arferion da i'w rhannu.

**Ebrill-Mai**

- Adolygu'r cynllun gweithredu a'i ddiweddaru lle mae'n angenrheidiol ar lefel rhaglen.
- Trafod gweithredoedd a diweddariadau lefel pwnc o fewn y gyfadran ac adrodd ar unrhyw faterion sydd angen eu trafod ymhellach i'r OSC.

**Mehefin-Gorffennaf**

- Cynnal gwerthusiad modiwlau Semester 2.
- Adolygu'r cynllun gweithredu a'i ddiweddaru lle bo'r angen (gwerthuso modiwl, data recriwtio/derbyn, adborth modiwlau EE ac adroddiadau blynyddol ar gyfer darpariaeth is-raddedig).

**Awst-Medi**

- Adolygu'r cynllun gweithredu a'i ddiweddaru lle mae'n angenrheidiol gyda chyfeiriad at ddata NSS lle mae ar gael.
- Adolygu a chyflunio'r cynllun gweithredu (adroddiad EE ac ymateb y tîm rhaglen).
- Gwerthuso modiwl Semester 3 os yw'n berthnasol.
- Cyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn CME ar gyfer Adolygiad Lefel Pwnc.

3.4 Mae'r Cynllun Gweithredu Monitro a Gwelliant Parhaus (CME) yn ddogfen fyw y gellir ei diweddaru drwy gydol y flwyddyn academaidd er mwyn gwerthuso perfformiadau a chofnodi gweithredoedd i wella ansawdd dysgu ac addysgu a phrofiadau myfyrwyr.

3.5 Dylai timau rhaglenni ddefnyddio'r data meintiol ac ansoddol canlynol fel ffynonellau tystiolaeth i lywio'u Cynllun Gweithredu Monitro a Gwella Parhaus yn gyson:


| **Adran Monitro a Gwella Parhaus** | **Ffynhonnell y data** | **Lleoliad** | **Amseru** |
|---|---|---|---|
| Recriwtio | • Adroddiadau recriwtio / derbyniadau. | • Ar gael i Diwtoriaid Derbyn. | • Adroddiad rheolaidd o fis Hydref ar gyfer rhaglenni amser llawn israddedigion.<br>• Adroddiad rheolaidd o fis Chwefror ar gyfer ôl-raddedigion neu raglenni rhan-amser. |
| Datblygu, darparu ac asesu rhaglenni | • Adolygiadau cyfnodol/argymhellion dilysu.<br>• Adborth gan Arholwyr Allanol.<br>• Adborth gan fyfyrwyr (SVF, SEM, NSS).<br>• Cofnodion gwerthuso modiwlau. | • Fe'u cedwir gan dimau Rhaglenni.<br>• Fe'i cedwir gan dimau Rhaglenni.<br>• Cofnodion SVF ar Borth y Myfyrwyr; canlyniadau SME ar Moodle; mae canlyniadau NSS ar gael trwy eu dosbarthu/ar y safle Teams.<br>• Safle Teams y rhaglen. | • Drwy gydol y flwyddyn.<br>• Gorffennaf ar gyfer adroddiadau israddedigion; Medi ar gyfer adroddiadau ôl-raddedigion.<br>• SVF – Hydref / Tachwedd, Mawrth / Ebrill; SEM – ar ddiwedd y semester; NSS – Gorffennaf.<br>• Ar ddiwedd pob semester. |
| Cadw / cynnydd / safonau academaidd | • Dangosyddion perfformiad rhaglenni allweddol. | • Y dudalen gwe Cynllunio ac Adrodd. | • Ionawr/Chwefror ar gyfer setiau |

| Adran Monitro a Gwella Parhaus | Ffynhonnell y data | Lleoliad | Amseru |
|---|---|---|---|
| | • Gwerthuso modiwlau. | • Safle Teams y rhaglen. | data'r flwyddyn flaenorol.<br>• Ar ddiwedd pob semester. |
| Adborth allanol | • Adroddiadau Arholwyr Allanol.<br>• Adborth gan gyflogwyr / darparwyr lleoliadau.<br>• Adroddiadau PSRB (os yn berthnasol).<br>• Panel adolygu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. | • Fe'u cedwir gan dimau rhaglenni.<br>• Cofnodion cyfarfodydd y grŵp Cyswllt Diwydiannol neu adborth anffurfiol a gedwir gan dimau rhaglenni.<br>• Fe'u cedwir gan dimau rhaglenni.<br>• Fe'u cedwir gan dimau rhaglenni. | • Diwedd Gorffennaf – adroddiadau israddedigion; Medi - adroddiadau ôl-raddedigion neu ddarpariaeth y flwyddyn academaidd estynedig.<br>• Yn ôl y galw.<br>• Yn ôl y galw.<br>• Yn ôl y galw. |
| Adborth gan fyfyrwyr | • Cofnodion SVF<br>• Canlyniadau ansoddol SEM<br>• Canlyniadau NSS<br>• Argymhellion o achosion cwynion ffurfiol myfyrwyr | • Ar gael ar borth y myfyrwyr<br>• Ar gael ar Moodle<br>• Y dudalen gwe Cynllunio ac Adrodd<br>• Fe'u cedwir gan dimau rhaglenni | • SVF – Hydref / Tachwedd, Mawrth / Ebrill<br>• Ar ddiwedd y semester<br>• Gorffennaf<br>• Yn ôl y galw |
| Adnoddau dysgu | • Adborth gan staff.<br>• Adborth gan fyfyrwyr. | • Fe'i cedwir gan dimau rhaglenni. | • Yn ôl y galw. |
| Cyflogadwyedd | • Data canlyniadau graddedigion neu ddata arall sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd.<br>• Adborth gan gyflogwyr / Arholwyr Allanol. | • Y dudalen gwe Cynllunio ac Adrodd.<br>• Fe'i cedwir gan dimau rhaglenni.<br>• Fe'i cedwir gan dimau rhaglenni. | • Awst.<br>• Yn ôl y galw.<br>• Yn ôl y galw. |

| Adran Monitro a Gwella Parhaus | Ffynhonnell y data | Lleoliad | Amseru |
|---|---|---|---|
| | • Adborth gan fyfyrwyr. | | |
| Cwricwlwm wedi'i lywio gan ymchwil | • Gwerthuso modiwlau / adborth mewnol. | • Safle Teams y rhaglen. | • Ar ddiwedd pob semester. |

## 4 Y Strwythur Adolygu ar gyfer Monitro a Gwella Parhaus

***Ffigur 3: Y Strwythur Adolygu ar gyfer Monitro a Gwella Parhaus***




### 4.1 **Adolygu'r Modiwl**

4.1.1 Ar Lefel y Modiwl, mae Arweinwyr Modiwlau yn gyfrifol am bennu cryfderau neu broblemau'n ymwneud â chynnwys y modiwl, y dulliau dysgu ac addysgu a'r strategaeth asesu. Bydd arweinwyr modiwlau'n gwerthuso'r modiwl ar sail perfformiad y myfyrwyr, gan lunio'r cynllun gweithredu'n barhaus pan fo angen.

### 4.2 **Adolygu'r Rhaglen**

4.2.1 Mae **Arweinwyr Rhaglen** yn gyfrifol am weithio gydag arweinwyr modiwlau i gwblhau'r cynllun gweithredu CME a'r adroddiad ar ddiwedd blwyddyn, trafod ac adolygu'r cynllun gweithredu mewn cyfarfodydd tîm rhaglen, dilyn i fyny'r camau gweithredu gwelliant yn unol â'r amserlen osodedig gan dynnu sylw'r at broblemau yn y gyfadran neu'r sefydliad cyfan drwy gyfarfodydd lefel pwnc neu drwy eu hadrodd i'r Deon Cyswllt ar gyfer eu hystyried ymhellach gan y Gyfadran neu'r Brifysgol.

4.2.2 Mae **Cysylltiadau Academaidd** yn gyfrifol am gynorthwyo staff mewn sefydliadau partner i adolygu ac olrhain cynlluniau gweithredu'n barhaus, a nhw hefyd sy'n gyfrifol am lunio'r adroddiad diwedd blwyddyn ar Fonitro a Gwella Parhaus ar gyfer rhaglenni a gyflwynir ar y cyd.

4.2.3 Mae **Arweinwyr Rhaglenni** mewn sefydliadau partner yn gyfrifol am lunio cynlluniau gweithredu Monitro a Gwella Parhaus ac adroddiadau diwedd blwyddyn, a'u hanfon at y Cysylltiadau Academaidd ym Mhrifysgol Wrecsam fel y gellir eu hystyried ochr yn ochr â rhaglenni "cartref". Disgwylir i bartneriaid gynnal eu cyfarfodydd rhaglenni eu hunain a rhoi'r diweddaraf i'r Cysylltiadau Academaidd am gynnydd materion hollbwysig a statws y camau, ynghyd ag unrhyw gamau sy'n ofynnol gan Brifysgol Wrecsam.

### 4.3 **Adolygu ar Lefel Pwnc**

4.3.1 Diben cyfarfodydd adolygu ar lefel pwnc yw:

- Sicrhau y rhoddir sylw hunanfeirniadol a phenodol i bob agwedd ar weithredu a darparu'r rhaglen, ynghyd â safonau academaidd y ddarpariaeth ac ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr.
- Sicrhau bod yr holl agweddau ar berfformiad y rhaglen wedi'u hystyried yn drylwyr fel y dangosir gan y data a gyflwynir i ategu'r broses Monitro a Gwella Parhaus.
- Hyrwyddo trafodaethau mewnol ynglŷn â materion allweddol yn ymwneud ag ansawdd a safonau'r ddarpariaeth, yn cynnwys pennu arferion da.

4.3.2 Dylai cofnodion y cyfarfodydd adolygu ar lefel pwnc gynnwys y canlynol:

- Teitlau'r rhaglenni y derbyniwyd adroddiadau ar eu cyfer (a hefyd pa adroddiadau sydd ar goll a pha gamau a gymerir i sicrhau eu bod yn cael eu cynhyrchu, ynghyd â'r system a roddir ar waith i sicrhau bod y Gyfadran yn craffu arnynt).
- Cadarnhad bod yr adroddiadau wedi'u derbyn a'u hawdurdodi.
- Manylion am adroddiadau a fydd yn cael eu diwygio a'u hailgyflwyno.
- Trafodaeth ynglŷn â themâu cyffredin a ddaw i'r amlwg yn ystod y cyfarfod ar draws y maes pwnc.
- Y materion hollbwysig a grybwyllir yn y drafodaeth a pha gamau y dylid eu cymryd gan y timau rhaglenni.
- Y prif faterion mae timau rhaglen yn dymuno tynnu sylw atynt wrth y Gyfadran ar gyfer trafodaeth bellach/camau gweithredu pellach.
- Enghreifftiau o arferion da y mae'r Gyfadran yn dymuno'u lledaenu a'u rhannu.
- Materion neu bryderon yn ymwneud â safonau academaidd y ddarpariaeth.
- Materion neu bryderon yn ymwneud ag ansawdd y cyfleoedd dysgu fel y'u trafodir mewn cyfarfodydd panel neu fel y'u dynodir gan dystiolaeth/data ategol.

4.3.3 Bydd y Tîm Ansawdd a Rheoliadau yn trefnu ac yn cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd lefel pwnc.

4.3.4 Mae'r Deon Cyswllt ar gyfer pob pwnc, neu eu cynrychiolwyr enwebedig (megis Prif Ddarlithwyr neu Arweinwyr Pwnc) yn gyfrifol am adolygu a chymeradwyo adroddiadau CME o fewn eu maes pwnc. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cynlluniau gweithredu wedi'u hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, a chwblhau'r adolygiad cynllun gweithredu CME lefel pwnc canol blwyddyn, gan gadarnhau cydymffurfiaeth a thynnu sylw at unrhyw broblemau neu arferion da.

4.3.5 Gofynnir i Ddeoniaid Cyfadran sicrhau bod cyfle ar gyfer trosolwg holistig o CMEau ar draws yr holl Gyfadran yn cael ei ddarparu.

4.3.6 Bydd gan bartneriaethau cydweithredol y cyfle i gyfrannu at y cyfarfodydd adolygiad ar lefel pwnc ac adolygiad CME y gyfadran drwy'r Cyswllt Academaidd a Rheolwr Ansawdd Partneriaethau.

4.3.7 Mae'r Deon Cyswllt neu gynrychiolwyr enwebedig yn gyfrifol am gydlynu a chynnal cyfarfodydd adolygu lefel pwnc, gan sicrhau bod yr holl ddiwygiadau sy'n codi o'r adolygiadau lefel pwnc yn cael eu cwblhau a bod yr holl adroddiadau'n cael eu cymeradwyo o fewn y cylch adolygu.

4.4 **Adolygiad y Gyfadran**

4.4.1 Mae Deoniaid y Cyfadrannau yn gyfrifol am sicrhau bod adroddiadau Monitro a Gwella Parhaus yn cael eu cynhyrchu'n foddhaol ar gyfer yr holl ddarpariaeth a gyflwynir gan y Gyfadran. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd ar lefel y rhaglen a'r pwnc i gynnal a gwella ansawdd y ddarpariaeth, ac am sicrhau bod camau gweithredu y tu hwnt i reolaeth timau pwnc yn cael eu nodi a'u cyfeirio at y Pwyllgor Ansawdd a Safonau.

4.4.2 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Cyfadran yn gyfrifol am ystyried materion allweddol ynghylch ansawdd a safonau'r ddarpariaeth, gan gynnwys:

- Adnabod enghreifftiau o arfer da a'u rhannu ar draws timau.
- Cytuno ar gamau gweithredu sydd i'w cymryd ar lefel Cyfadran a'r camau gweithredu i'w cyfeirio i fyny i'r QSC.
- Adnabod themâu cyffredin sy'n codi o'r adolygiad.
- Bod yn sicr bod yr holl CMEau ar gyfer y Gyfadran wedi cael eu cwblhau a bod cynlluniau gweithredu yn mynd i'r afael â'r prif broblemau yn effeithiol.
- Adolygu a Monitro diweddariadau cynlluniau gweithredu.
- Sicrhau bod unrhyw CMEau sydd heb eu cyflwyno yn cael eu derbyn maes o law a'u cymeradwyo gan y Deon Cyswllt neu'r cynrychiolwyr enwebedig (Prif Ddarlithwyr neu Arweinwyr Pwnc).

4.4.3 Fel rhan o'r broses barhaus, adolygir cynllun gweithredu'r CME ar lefel rhaglen, ac adroddir ar unrhyw broblemau'n codi wrth y Gyfadran er mwyn iddynt eu hystyried, a, lle bo hynny'n angenrheidiol, eu huwchgyfeirio ymhellach i'r QSC.

4.4.4 Bydd y Gyfadran yn cyflwyno'r adroddiad Trosolwg Cyfadran CME i'r QSC yn dilyn adolygiadau pwnc a chyfadran, gan dynnu sylw at themâu ac argymhellion cyffredin. Byddant hefyd yn cwblhau adolygiad lefel pwnc canol blwyddyn CME er mwyn cadarnhau bod yr holl dimau rhaglen yn adolygu a diweddaru eu cynlluniau gweithredu'n rheolaidd, gydag unrhyw broblemau arwyddocaol neu arferion da yn cael eu hamlygu i'r QSC.

### 4.5 Adolygiad y Sefydliad

4.5.1 Ar ôl derbyn adroddiadau trosolwg Monitro a Gwella Parhaus y Gyfadran, mae'r QSC yn cadarnhau bod y broses barhaus o fonitro a gwella'r rhaglen wedi'i chwblhau, yn llunio cynllun o gamau gweithredu ar lefel sefydliadol a nodwyd gydag adroddiadau trosolwg CME y Gyfadran yn seiliedig ar y themâu allweddol a'r materion sy'n codi dro ar ôl tro, ac yn cyfeirio enghreifftiau o arfer da ar gyfer datblygiad/lledaeniad pellach.

4.5.2 Mae'r tîm Ansawdd a Rheoleiddio yn rheoli ac yn monitro effeithiolrwydd y broses CME, yn darparu cefnogaeth ar gyfer arweinwyr rhaglen, ac yn gweithredu fel ysgrifennydd ar gyfer QSC. Ynghyd â Chadeirydd QSC, mae'r Rheolwr Ansawdd a Rheoleiddio yn adnabod themâu allweddol y dylid mynd i'r afael â hwy yn ystod cylch monitro a gwella rhaglen parhaus y flwyddyn ganlynol. Ar ddiwedd bob cylch CME, bydd y cynllun gweithredu lefel sefydliadol yn cael ei adrodd arno wrth y QSC a fydd yn monitro'r camau gweithredu sydd i'w cwblhau a'u rhannu gyda'r Gyfadran i fod yn sail i'r cynllunio ar gyfer y cylch CME nesaf.

## 5 Hygyrchedd

5.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol sy'n deall trawma wrth ddylunio a gweithredu ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os oes angen addasiadau arnoch i gael mynediad at y weithdrefn hon neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r weithdrefn hon, anfonwch e-bost atom at quality@wrexham.ac.uk.

*Ffigur 4: Llif Gwaith y Broses Monitro a Gwella Parhaus*

